

Tommos Martin, Prentis Gweinyddu Busnes,

Addysg Feddygol



Fe gefais gyfle anhygoel yn gynnar yn 2020 i ddechrau fy ngyrfa yn y GIG fel Prentis Gweinyddu Busnes o fewn Adran Addysg Feddygol BIP Caerdydd a'r Fro. Roedd hyn yn ystod pandemig byd-eang ac mae wedi fy ngorfodi i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r rôl yn gyflym, i ddysgu sgiliau er mwyn goresgyn problemau, addasu i newid a chadw at ganllawiau cenedlaethol a lleol.

Mae'r rôl Prentisiaeth wedi fy ngalluogi i gael cipolwg ar y GIG fel sefydliad gyda chefnogaeth glir ac anogaeth gan fy Nhîm ac mae hyn wedi fy helpu i ddatblygu fy hyder a fy sgiliau trwy gael hyfforddiant yn y swydd ac adborth cadarnhaol gan gydweithwyr yn fy Nhîm. Mae'r rôl wedi sbarduno fy ngyrfa yn y GIG drwy fy hyfforddi i'r safonau sydd yn ddisgwyliedig o fewn y sefydliad a thrwy osod targedau personol fel NVQ Gweinyddu Busnes Lefel 2 a gwblheais o fewn fy swydd 12 mis. Fe fydd hyn yn fy ngalluogi i ddatblygu ymhellach o fewn y GIG ac rydw i bellach yn gobeithio anelu at NVQ Lefel 3.